



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Iechyd Cyhoeddus  
Cymru  
Public Health  
Wales

## Tîm Diogelu Iechyd, Iechyd Cyhoeddus Cymru Offeryn (Archwilio) Atal Heintiau a Gwella a Rheoli Ansawdd ar gyfer Lleoliadau Gofal Plant ac Addysg yng Nghymru (2019)

### Archwilio cydymffurfiaeth â safonau Atal a Rheoli Heintiau mewn lleoliadau Gofal Plant ac Addysg

Mae'r Offeryn Archwilio Atal a Rheoli Heintiau canlynol yn ceisio annog lleoliadau Gofal Plant ac Addysg yng Nghymru i hunanasesu er mwyn hybu safonau atal a rheoli heintiau sy'n seiliedig ar dystiolaeth/arfer gorau, a thrwy hynny leihau'r posibilrwydd o groes-heintio yn y lleoliadau. Mae dyletswydd gofal ar leoliadau Gofal Plant ac Addysg i reoli'r risg o haint trwy hybu trefn o atal a rheoli heintiau sy'n seiliedig ar dystiolaeth/arfer gorau a thrwy hynny atal haint, lle bynnag y bo'n bosibl, mewn dysgwyr a staff.

Argymhellir bod yr offeryn archwilio'n cael ei gwblhau gan unigolyn yn y lleoliad sydd wedi'i enwi fel arweinydd sy'n gyfrifol am atal a rheoli heintiau:

- Dylai'r unigolyn sy'n cwblhau'r offeryn archwilio wneud sylwadau NEU nodi camau gweithredu ar gyfer bob cwestiwn yn y blwch; a llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â meysydd o ddiffyg cydymffurfio.
- Argymhellir bod yr offeryn archwilio'n cael ei gwblhau bob tymor a bod unrhyw faterion y mae angen eu gweithredu yn cael sylw mor fuan ag y mae'n ymarferol bosibl, yn unol â lefel y risg.
- Mae cymesuredd a'r modd yr addasir yr offeryn archwilio hwn yn dibynnu ar faint a lleoliad y man gofal plant ac asesiadau risg lleol a wnaed gan y sefydliadau dan sylw.

Dylid defnyddio'r offeryn archwilio ar y cyd â'r dogfennau canlynol, fel y bo'n berthnasol:

- Canllawiau ar Atal a Rheoli Heintiau Cymru Gyfan ar gyfer Lleoliadau Addysg  
<https://phw.nhs.wales/services-and-teams/harp/infection-prevention-and-control/guidance/>
- Canllawiau ar Atal a Rheoli Heintiau Cymru Gyfan ar gyfer Lleoliadau Addysg (0-5 oed) yng Nghymru (Meithrinfeydd, Gwarchodwyr Plant a Grwpiau Chwarae)  
<https://phw.nhs.wales/services-and-teams/harp/infection-prevention-and-control/guidance/>
- Yr amser a argymhellir ar gyfer cadw unigolion draw o leoliadau oherwydd heintiau cyffredin  
<http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/888/PHW%20HPT%20Recommended%20Time%20to%20Keep%20Individuals%20Away%20from%20Settings%202019%20v3%20WELSH.pdf>
- Toiledau ysgol: Canllaw arfer da ar gyfer ysgolion yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2012)  
<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/toiledau-ysgol-canllaw-arfer-da-ar-gyfer-ysgolion-yng-nghymru.pdf>  
(Mae'r ddogfen olaf hon wedi'i defnyddio'n benodol ar gyfer y cwestiynau'n ymwneud â thoiledau a golchi dwylo. Dylid ystyried pob bloc toiledau.)

Hoffem gydnabod Cydlynwyr Ysgolion Iach Cyngor Sir Ddinbych a'u cydweithwyr am ddiweddaru'r Offeryn Archwilio yn Ionawr 2019.

## Dyfarniadau Gwerthuso

Rhagorol	Da	Derbyniol	Blaenoriaeth ar gyfer gwella
<p>Mae gweledigaeth glir a pholisi/gweithdrefnau yn eu lle ar gyfer datblygu gweithdrefn atal a rheoli heintiau yn yr ysgol/lleoliad gofal plant. Maent yn bodloni'n llawn yr holl ddisgwyliadau statudol a'r argymhellion yn y canllawiau cenedlaethol presennol. Maent yn cael eu rhannu â'r holl randdeiliaid perthnasol.</p>	<p>Mae gweledigaeth glir a pholisi/gweithdrefnau yn eu lle ar gyfer datblygu gweithdrefn atal a rheoli heintiau yn yr ysgol/lleoliad gofal plant. Maent yn bodloni'r rhan fwyaf o'r holl ddisgwyliadau statudol a'r argymhellion yn y canllawiau cenedlaethol presennol. Maent yn cael eu rhannu â'r rhan fwyaf o'r rhanddeiliaid perthnasol.</p>	<p>Mae gweledigaeth glir a pholisi/gweithdrefnau yn eu lle ar gyfer datblygu gweithdrefn atal a rheoli heintiau yn yr ysgol/lleoliad gofal plant. Maent yn bodloni rhai disgwyliadau statudol a'r argymhellion yn y canllawiau cenedlaethol presennol. Nid ydynt bob amser yn cael eu rhannu â'r rhanddeiliaid perthnasol.</p>	<p>Nid oes unrhyw weledigaeth neu bolisi/gweithdrefnau yn eu lle ar gyfer datblygu gweithdrefn atal a rheoli heintiau yn yr ysgol/lleoliad gofal plant. Nid ydynt yn bodloni'r holl ddisgwyliadau statudol a'r argymhellion yn y canllawiau cenedlaethol presennol. Nid ydynt yn cael eu rhannu â'r rhanddeiliaid perthnasol.</p>
<p>Mae'r gwaith o fonitro'r cyfrifoldeb hwn yn cael ei amserlennu a'i gofnodi ac mae'n cynnwys yr holl randdeiliaid perthnasol. (Hefyd mae contractau'n ymwneud ag atal a rheoli heintiau yn cael eu monitro'n agos a'u hadolygu). Caiff unrhyw broblemau eu cynnwys yng nghynllun gwella'r ysgol/lleoliad gofal plant a chaiff canlyniadau eu gwerthuso.</p>	<p>Mae'r gwaith o fonitro'r cyfrifoldeb hwn yn cael ei amserlennu a'i gofnodi ac mae'n cynnwys y rhan fwyaf o'r rhanddeiliaid perthnasol. (Hefyd mae contractau'n ymwneud ag atal a rheoli heintiau yn cael eu monitro'n a'u hadolygu). Caiff unrhyw broblemau eu cynnwys yng nghynllun gwella'r ysgol/lleoliad gofal plant a chaiff rhai canlyniadau eu gwerthuso.</p>	<p>Gwnaeth peth gwaith i fonitro'r cyfrifoldeb hwn, ond nid yw'n cael ei amserlennu fel mater o drefn na'i gofnodi a dim ond rhai o'r rhanddeiliaid perthnasol y mae'n ei gynnwys. (Caiff contractau'n ymwneud ag atal a rheoli heintiau eu monitro'n a'u hadolygu ad hoc). Caiff unrhyw broblemau eu cynnwys yng nghynllun gwella'r ysgol/lleoliad gofal plant yn achlysurol, ond nid yw'r canlyniadau wedi eu gwerthuso bob amser.</p>	<p>Nid yw'r cyfrifoldeb hwn wedi cael ei fonitro mewn unrhyw faes ac nid yw'n cynnwys rhanddeiliaid perthnasol. (Ni chaiff contractau'n ymwneud ag atal a rheoli heintiau eu monitro'n na'u hadolygu). Ni chaiff broblemau eu cynnwys yng nghynllun gwella'r ysgol/lleoliad gofal plant ac ni chaiff canlyniadau eu gwerthuso.</p>
<p>Mae adnoddau da yn yr ysgol/lleoliad gofal plant ac mae cyfleusterau, offer ac adnoddau priodol yn eu lle i helpu i atal a rheoli heintiau.</p>	<p>Mae adnoddau eithaf da yn yr ysgol/lleoliad gofal plant ac mae rhai cyfleusterau, offer ac adnoddau priodol yn eu lle i helpu i atal a rheoli heintiau.</p>	<p>Mae adnoddau digonol yn yr ysgol/lleoliad gofal plant o ran cyfleusterau, offer ac adnoddau priodol i helpu i atal a rheoli heintiau.</p>	<p>Nid oes adnoddau da yn yr ysgol/lleoliad gofal plant ac mae diffyg cyfleusterau, offer ac adnoddau, neu rai amhriodol, i gefnogi atal a rheoli heintiau.</p>
<p>Mae pob un neu bron i bob aelod o staff yn ymwybodol o bwysigrwydd atal a rheoli heintiau yn yr ysgol/lleoliad gofal plant ac maent yn gweithredu arfer da yn unol â chanllawiau cenedlaethol presennol.</p>	<p>Mae'r rhan fwyaf o staff yn ymwybodol o bwysigrwydd atal a rheoli heintiau yn yr ysgol/lleoliad gofal plant ac mae'r rhan fwyaf yn gweithredu arfer da yn unol â chanllawiau cenedlaethol presennol.</p>	<p>Dim ond rhai aelodau o staff sy'n ymwybodol o bwysigrwydd atal a rheoli heintiau yn yr ysgol/lleoliad gofal plant ac mae rhai'n gweithredu arfer da yn unol â chanllawiau cenedlaethol presennol.</p>	<p>Does yr un aelod o staff yn ymwybodol o bwysigrwydd atal a rheoli heintiau yn yr ysgol/lleoliad gofal plant ac nid ydynt yn gweithredu arfer da yn unol â chanllawiau cenedlaethol presennol.</p>

## 1: Rheoli haint

	Arfer Da	Rhagorol	Da	Derbyniol	Blaenoriaeth ar gyfer gwella	Amherthnasol	Sylw ar y modd y cyflawnir hyn/ Cam Gweithredu
1.	<p>Mae gan y lleoliad unigolyn arweiniol wedi'i enwi sy'n gyfrifol am atal a rheoli haint.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'r unigolyn hwn neu hon wedi derbyn hyfforddiant ar ymwybyddiaeth o atal a rheoli haint; mae'n ymwybodol o ganllawiau rheoli haint, ac yn gweithio'n unol â nhw; mae'n cynnal archwiliadau atal a rheoli haint cyson ac yn gweithredu camau.</li> </ul>						
2.	<p>Mae gan y lleoliad restr o rifau cyswllt lleol i gael cyngor ynghylch atal a rheoli haint:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>E.e. lechyd yr Amgylchedd, lechyd Cyhoeddus Cymru - Diogelu lechyd, Gwasanaethau Glanhau ac Iechyd Galwedigaethol).</li> <li>Mae'r rhifau ar gael yn hwylus ac mae staff yn ymwybodol ohonynt.</li> </ul>						
3.	<p>Mae'r lleoliad yn dilyn canllawiau Tîm Diogelu lechyd, lechyd Cyhoeddus Cymru ar yr amser a argymhellir ar gyfer cadw unigolion draw o leoliadau oherwydd heintiau cyffredin.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Cysylltir â'r Tîm Diogelu lechyd i gael cyngor fel y bo angen.</li> <li>Defnyddir y rheol 48 awr i'r rhai sy'n dioddef o salwch gastroberfeddol.</li> </ul>						
4.	<p>Mae'r lleoliad yn cadw cofnod dyddiol o'r holl absenoldebau ar gyfer staff a disgyblion gan nodi'r rheswm (yn cynnwys salwch) er mwyn gallu gweld patrymau.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Rhoddir gwybod am achosion i'r Tîm Diogelu lechyd (2 achos cysylltiedig neu fwy).</li> <li>Rhoddir gwybod i'r Tîm Diogelu lechyd am glefydau hysbysadwy a chyfraddau uwch</li> </ul>						

	nag arfer o ddolur rhydd a chwydu						
5.	<p>Caiff gwybodaeth am yr amser a argymhellir ar gyfer cadw unigolion draw o leoliadau oherwydd heintiau ei rhannu â staff, rhieni/gofalwyr a disgyblion yn rheolaidd (e.e. bob tymor) e.e. drwy gylchlythyr/cyfryngau cymdeithasol, llawlyfr staff, swyddfa, stafell athrawon ayb</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Cyfeirir yn benodol at y rheol 48 awr ar gyfer salwch gastroberfeddol.</li> <li>Cymerir gofal ychwanegol ar gyfer staff beichiog a disgyblion bregus.</li> </ul>						

## 2: Glanhau

### 2a: Glanhau cyffredinol

	Arfer Da	Rhagorol	Da	Derbyniol	Blaenoriaeth ar gyfer awella	Amherthnas ol	Sylw ar y modd y cyflawnir hyn/ Cam Gweithredu
1.	Mae contract glanhau yn ei le gyda'r Awdurdod Lleol NEU mae contract glanhau yn ei le gyda chwmni allanol NEU gwneir y gwaith glanhau gan staff a gyflogir gan yr ysgol/lleoliad gofal plant.						
2.	Gellir dangos tystiolaeth o lanhau effeithiol trwy gofnodion hyfforddiant, cofnodion goruchwyllo, tafenni a lofnodir, sicrwydd ansawdd, fel bod tystiolaeth ar gael pe bai achosion yn codi. Ar gyfer cwmnïau allanol, mae'r pennaeth/rheolwyr busnes yn dilysu bod hyn yn cael ei ddarparu fel rhan o'r contract.						

3.	Mae staff glanhau'n cael eu goruchwyllo a'u hyfforddi'n briodol trwy drefn sy'n cael ei diweddarau'n gyfnodol e.e. technegau glanhau, gweithdrefnau gweithio diogel, COSHH, defnyddio nwyddau'n gywir a manylbau glanhau, codi a chario, defnyddio offer trydanol yn ddiogel (e.e. peiriannau polisio), profion PAT ar gyfer offer trydanol ayb. Ar gyfer cwmnïau allanol, mae'r pennaeth/rheolwyr busnes yn dilysu bod hyn yn cael ei ddarparu fel rhan o'r contract.	Green	Yellow	Orange	Red		
4.	Mae asesiadau risg priodol yn eu lle ar gyfer glanhau e.e. defnyddio peiriannau polisio, codi a chario.	Green	Yellow	Orange	Red		
5.	Mae gwasanaeth glanhau dyddiol yn ei le i sicrhau bod y safle'n cael ei gadw'n lân, diogel a hylan.	Green	Yellow	Orange	Red		
6.	Mae amserlen lanhau ysgrifenedig <b>yn ei lle ac yn cael ei dilyn gan staff glanhau</b> , sy'n nodi'r dull glanhau, y cemegau i'w defnyddio, yr offer sydd ei angen a pha mor aml y gwneir y gwaith glanhau.	Green	Yellow	Orange	Red		
7.	Cyfleusterau glanhau: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Stafell neu gwpwrdd glanhau penodol ar gyfer storio offer</li> <li>• Sinc penodol ar gyfer glanhau (e.e. i wagio dŵr budr)</li> <li>• Ni chedwir offer glanhau byth mewn toiledau.</li> <li>• Cedwir offer glanhau cegin ar wahân i offer glanhau toiledau</li> </ul>	Green	Yellow	Orange	Red		

8.	<p>Offer glanhau:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae offer glanhau wedi'i labelu/mewn cod lliw i bwrpas penodol (e.e. mopiau, bwcedi, cadachau ayb)</li> <li>• Mae bob cadach glanhau yn aros mewn un darn ac o ddewis yn rhai y defnyddir unwaith yn unig. Os defnyddir rhai y gellir eu hailddefnyddio, rhai cael proses addas ar gyfer dadhalogi bob dydd.</li> <li>• Defnyddir pen mop tafladwy neu golchir rhai y gellir eu hailddefnyddio bob tro ar ôl eu defnyddio</li> <li>• Gadewir pennau mop i bwyso â'r pen ar y fyny (byth mewn bwced o ddŵr)</li> <li>• Cedwir bwcedi mop mewn cyflwr da, ac maent yn cael eu glanhau, eu diheintio a'u sychu bob tro ar ôl eu defnyddio.</li> <li>• NI ddefnyddir pennau mop y gellir eu hailddefnyddio ar gyfer glanhau gwaed neu hylif corfforol a gollir yn cynnwys chŵyd, wrin ac ysgarthion.</li> </ul>						
9.	<p>Caiff cemegau glanhau eu storio'n unol â chyfarwyddiadau'r gweithgynhyrchydd ac mae taflenni data diogelwch nwyddau ar gael. Caiff staff sy'n defnyddio'r cemegau gyfarwyddiadau ar sut i'w defnyddio'n ddiogel. Mae COSHH yn ei le ar gyfer yr holl gemegau glanhau.</p>						
10.	<p>Mae'r holl ddodrefn a ffitiadau mewn cyflwr da.</p>						
11.	<p>Mae'r holl ardaloedd cyffredinol yn y lleoliad yn lân ac yn dwt er mwyn gallu glanhau arwynebau (lloriau, byrddau, cadeiriau) yn hawdd,</p>						
12.	<p>Mae deunyddiau glanhau ar gael yn hwylus i'r holl staff yn ystod y diwrnod gwaith i sicrhau bod y lleoliad yn cael ei ddiheintio'n amserol.</p>						
13.	<p>Caiff carpedi eu glanhau â sugnydd llwch bob dydd a'u glanhau â stêm yn rheolaidd (bob 6 mis)</p>						
14.	<p>Mae amserlen lanhau ysgrifenedig <b>yn ei lle ac yn cael ei dilyn</b> ar gyfer y stafell ddosbarthu ac offer chwarae (e.e. ar gyfer teganau meddal a chaled, chwarae â dŵr, chwarae â thywod, clai, offer awyr agored), sy'n cynnwys glanhau ychwanegol yn ystod achosion.</p>						

15.	Mae gweithdrefn ysgrifenedig yn ei lle ar gyfer glanhau gwaed a hylif corfforol ac mae staff yn gwybod sut i ddelio â'r rhain yn ddiogel.						
16.	Mae pecynnau delio â hylif ar gael yn hwylus i ddelio â gwaed neu hylif corfforol a gollir (e.e. ffedogau, menig a chadachau tafldwy, gronnau amsugno hylif a gollir, diheintydd addas a thyweli papur.						

## 2b: Glanhau toiledau / cyfleusterau golchi dwylo

	Arfer Da	Rhagorol	Da	Derbyniol	Blaenoriaeth ar gyfer gwella	Amherthnas ol	Sylw ar y modd y cyflawnir hyn/ Cam Gweithredu
1.	Mae unigolyn/cwmni penodol yn gyfrifol am lanhau ardaloedd toiledau.						
2.	Mae amserlen lanhau ysgrifenedig ar gyfer ardaloedd toiled. Caiff yr holl offer toiled, yn cynnwys seddau'r ciwbiclau eu glanhau'n drylwyr yn ddelfrydol o leiaf ddwywaith y dydd sy'n cynnwys ar ddiwedd y dydd.						
3.	Mae basnau golchi dwylo'n lân ar ddechrau bob diwrnod a phroses yn ei lle i archwilio a chynnal y safon hon yn ystod y dydd.						
4.	Caiff manau mae pobl yn cyffwrdd â nhw yn aml, megis dolenni fflysiol'r toiled, tapiâu, dolenni drysau a biniau gwastraff, eu glanhau a'u diheintio mor aml â phosibl, yn enwedig pan maent yn edrych yn fudr.						
5.	Mae staff yn gwisgo Cyfarpar Diogelu Personol (CDP) digonol wrth lanhau toiledau neu wneud tasgau'n gysylltiedig â thoiledau.						
6.	Caiff amgylchedd toiledau ei lanhau gyda deunyddiau glanhau addas sy'n cael gwared yn effeithiol ar sylwedd organig (llwch) ac sy'n lleihau halogi â micro-organebau i lefel ddiogel.						

7.	Mae'r holl offer glanhau a ddefnyddir mewn ardaloedd toiled mewn cod lliw rhag iddynt gael eu defnyddio mewn ardaloedd eraill o'r lleoliad, ac mae cadachau a phennau mop yn dafladwy.						
----	--	--	--	--	--	--	--

### 3: Toiledau

#### 3a: Toiledau ar gyfer staff, disgyblion ac ymwelwyr â'r ysgol – mandadol

	SAFONAU GOFYNNOL GORFODOL Rheoliadau Addysg (Mangreoedd Ysgol) 1999	Rhagorol	Da	Derbyniol	Blaenoriaeth ar gyfer gwella	Amherthnas ol	Sylw ar y modd y cyflawnir hyn/ Cam Gweithredu
1.	Nifer y toiledau i ddysgwyr eu defnyddio: <ul style="list-style-type: none"> <li>Dysgwyr 5 oed neu fwy: 1 toiled ar gyfer pob 20 disgybl</li> <li>Dysgwyr o dan 5 oed: 1 toiled ar gyfer pob 10 disgybl</li> <li>Mewn lleoliadau addysg arbennig: 1 toiled ar gyfer pob 10 disgybl, waeth beth fo eu hoed.</li> </ul>						
2.	Nifer y basnau golchi dwylo a leolir mewn cyfleusterau toiled: Pan fo mwyafrif y dysgwyr o dan 11 oed dylid cael cynifer o fasnau ymolchi â thoiledau Pan fo mwyafrif y dysgwyr yn 11 oed neu'n fwy: <ul style="list-style-type: none"> <li>Dylai stafelloedd ymolchi gydag 1 toiled gael o leiaf 1 basn golchi dwylo</li> <li>Dylai stafelloedd ymolchi gyda 2 doiled gael o leiaf 2 fasn golchi dwylo</li> <li>Yn achos ystafelloedd ymolchi â 3 thoiled neu fwy, rhaid i nifer y basnau ymolchi fod o leiaf ddwy ran o dair o nifer y toiledau.</li> </ul>						
3.	Cyfleusterau toiled ar wahân i wrywod a benywod: Dylai ardaloedd toiled ar gyfer dysgwyr gwrywaidd a benywaidd wyth oed neu fwy fod ar wahân. <i>*Nodwch: nid yw hwn yn rhan o archwiliad rheoli haint, ond efallai y byddwch am ystyried eich cyfleusterau i gefnogi disgyblion traws.</i>						
4.	Cyfleusterau toiled ar wahân i staff: Dylai toiledau staff, ar wahân i'r rhai sy'n benodol ar gyfer mynediad i bobl anabl, fod ar wahân i doiledau disgyblion.						



5.	Mae gan staff, disgyblion neu ymwelwyr anabl doiledau cwbl hygyrch a basnau golchi dwylo y gellir eu defnyddio'n gyflym a hawdd o unrhyw le yn y lleoliad.						
6.	Mae'r lleoliad yn cynnwys datganiad am gyfleusterau toiled yn adroddiad blynyddol y llywodraethwyr i rieni/gofalwyr.						

### 3b: Toiledau ar gyfer staff, disgyblion ac ymwelwyr – Arfer Da

	Arfer Da	Rhagorol	Da	Derbyniol	Blaenoriaeth ar gyfer gwella	Amherthnasol	Sylw ar y modd y cyflawnir hyn/
1.	Mae system yn ei lle i fonitro glanweithdra BOB ardal toiled, a gweld eu bod yn gweithio'n iawn, megis archwiliadau rheolaidd ysgrifenedig a thystiolaeth bod camau'n cael eu cymryd pan fo angen (e.e. glanweithdra, digon o sebon hylif, papur toiled a thyweli papur; cloeon, fflysiâu a sychwyr llaw yn gweithio'n iawn).						
2.	Mae toiledau a ffitiadau o'r maint a'r uchder cywir i'r dysgwyr y mae disgwyl iddynt eu defnyddio (e.e. bod modd cyrraedd uchder y toiled a'r botwm fflysiâu a'u bod yn hawdd eu defnyddio).						
3.	Mae holl walïau, llorïau, nenfydau, drysau, ardaloedd cyswllt ayb yn fath o ddeunydd caled sy'n hawdd ei sychu/nid yn amsugno ac yn hawdd ei olchi, hawdd ei lanhau ac yn gallu gwrthsefyll prosesau glanhau a diheintio rheolaidd.						
4.	Mae gan bob toiled sedd – y rhai gyda bwloch ar flaen y sedd yw'r rhai mwyaf hylan (Arfer gorau: bod caead wedi'i osod ar bob toiled, ac eithrio toiledau anabl).						
5.	Mae papur toiled meddal ar gael mewn peiriant sydd ar y wal lle mae'n hawdd cael ato. Dylid cael cwpwrdd gerllaw y gellir ei gloi ar gyfer cadw papur toiled wrth gefn.						
6.	Ni chaiff unrhyw eitemau eu storio yn y toiledau (oni bai eu bod wedi'u storio mewn cynwysyddion wedi eu selio neu gypyrddau y gellir eu glanhau).						

#### 4: Cyfleusterau golchi dwylo a chawodydd

	Arfer Da	Rhagorol	Da	Derbyniol	Blaenoriaeth ar gyfer gwella	Amherthnasol	Sylw ar y modd y cyflawnir hyn/ Cam Gweithredu
1.	Mae basnau golchi dwylo yn yr un stafell â'r toiledau a'r wrinalau.						
2.	Mae POB basn golchi dwylo'n gweithio'n iawn, yn lân a gyda thap dŵr poeth ac oer.						
3.	Mae POB basn golchi dwylo'n dwt ac yn lân. <i>Nodwch: dylid defnyddio basnau golchi dwylo ar gyfer golchi dwylo yn unig. Ni chedwir unrhyw gwpanau / offer arall yn y basnau golchi dwylo. Ni chaiff brwshys ewinedd eu darparu</i>						
4.	Rhag llosgi, mae system rheoli dŵr poeth yn ei lle i sicrhau nad yw'r tymheredd yn gallu mynd yn uwch na 41°C o bob tap.						
5.	Os defnyddir tapiâu pwyso, dylai'r dŵr lifo am ddigon hir i unigolion olchi eu dwylo'n iawn.						
6.	Mae tapiâu a pheiriannau sebon yn addas i ddefnyddwyr â gafael gwael, problemau cydsymud a/neu symudedd cyfyngedig.						
7.	Bod o leiaf un peiriant sebon wedi'i osod ar y wal rhwng dau fasn golchi dwylo.						
8.	Peiriannau sebon hylif tafladwy mewn cetris yw'r dewis mwyaf priodol. Ni ddylid defnyddio bar sebon. <i>Nodwch: mae bar sebon yn gallu trosglwyddo haint o'r naill unigolyn i'r llall. Ni ddylid adlenwi peiriannau sebon er mwyn cyfyngu ar groes-heintio.</i>						
9.	Argymhellir tyweli llaw papur ond mae angen eu hail-lenwi drwy gydol y dydd.						
10.	Os defnyddir sychwyr llaw rhaid iddynt fod yn addas i blant a chael rhaglen lanhau a chynnal briodol yn ei lle.						

11.	Mae gan ardaloedd toiled finiau gwastraff gyda chaeadau ac sy'n agor a chau â'r droed ar gyfer gwaredu tyweli llaw wedi'u defnyddio. Os yw biniau sy'n agor a chau â'r droed yn anaddas i blant bach eu defnyddio yna dylid ystyried dewis arall. Rhaid gwagio'r biniau gwastraff yn rheolaidd rhag iddynt orlenwi.						
12.	Caiff canllawiau ar ffurf lluniau eu harddangos ym mhob ardal doiled i ddysgwyr a staff sy'n dangos pryd a sut dylent olchi eu dwylo.						
13.	Gofynnir i ddisgyblion olchi eu dwylo ar amseroedd priodol e.e. cyn brecwast, amser byrbryd, cinio, ar ôl chwarae allan ayb						
14.	Goruchwylir dysgwyr iau a rhai ag anghenion arbennig wrth iddynt olchi eu dwylo a defnyddio'r toiled.						
15.	Addysgir disgyblion am bwysigrwydd hylendid dwylo da a thechnegau cywir fel rhan o'r cwricwlwm.						
16.	NID yw defnyddio geliau alcohol yn cymryd lle golchi dwylo. Dylid ei ddefnyddio'n unig mewn amgylchiadau arbennig dan oruchwyliaeth (Iechyd a Diogelwch, COSHH)						
17.	Caiff cawodydd na ddefnyddir yn aml eu rhedeg bob wythnos am 5-10 munud. <i>Nodwch: os yw hyn yn cael ei wneud am y tro cyntaf mae angen cynnal asesiad risg legionella. Cysylltwch â Thîm Iechyd yr Amgylchedd.</i>						
18.	Dylid cael cynllun ac asesiad risg yn eu lle ar gyfer unrhyw darfu wedi'i gynllunio neu heb ei gynllunio ar y cyflenwad dŵr sy'n effeithio ar y lleoliad addysg.						

## 5: Cynhyrchion misglwyf i ferched, a'u gwaredu

	Arfer Da	Rhagorol	Da	Derbyniol	Blaenoriaeth ar gyfer gwella	Amherthnasol	Sylw ar y modd y cyflawnir hyn/ Cam Gweithredu
1.	<p>Cynhyrchion misglwyf:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Gall ysgolion yng Nghymru ddarparu cynhyrchion misglwyf am ddim i ferched, fel nad oes angen (a thalu am) beiriant cynhyrchion misglwyf.</li> <li>Lleoliadau addysg uwchradd: mae gan bob set o doiledau (gyda dau giwbicl neu fwy) i enethod beiriant cynhyrchion misglwyf.</li> <li>Lleoliadau addysg gynradd: mae gan o leiaf un set o doiledau i ferched wyth oed a throsodd, beiriant cynhyrchion misglwyf.</li> </ul>						
2.	<p>Mae unedau gwaredu cynhyrchion misglwyf ar gael ym mhob toiled i ferched o'r oedran priodol mewn ciwbiclau unigol. Nid yw biniau gwastraff arferol yn ddigonol.</p>						
3.	<p>Mae unedau gwaredu cynhyrchion misglwyf yn cael eu gwagio'n ddigon aml gan gwmni cofrestredig rhag iddynt orlenwi neu achosi drewdod.</p>						

## 6: Newid cewyn/padiu ymataliaeth a damweiniau achlysurol

	Arfer Da	Rhagorol	Da	Derbyniol	Blaenoriaeth ar gyfer awella	Amherthnasol	Sylw ar y modd y cyflawnir hyn/ Cam Gweithredu
1.	Mae ardal benodol ar gyfer newid cewynnau/padiu ymataliaeth neu ddisgyblion sydd wedi baeddu gyda mynediad at fasn golchi dwylo yn yr un ardal. (Draw oddi wrth ardaloedd chwarae neu ardaloedd paratoi/gweini bwyd). <i>Nodwch: gallai fod yn doiled, ardal anabl, mewn toiledau arferol</i>						
2.	Mae eitemau sy'n ymwneud â'r weithdrefn newid wrth law (e.e. wedi'u storio mewn blwch plastig: menig, ffedogau a chadachau tafladwy, chwistrellau glanhau, rholyn papur alas sebon hylif						
3.	Mae staff yn gwisgo CDP cywir (h.y. ffedogau a menig tafladwy.) Newidir y rhain rhwng bob plentyn ac mae staff yn golchi dwylo â sebon a dŵr ar ôl tynnu'r CDP.						
4.	Mae matiau newid yn gwrthsefyll dŵr ac mewn cyflwr da ac yn addas i'r pwrpas.						
5.	Mae gweithdrefn newid ar gael ac yn cael ei dilyn gan staff.						
6.	Caiff matiau newid eu dadhalogi a'u gorchuddio â rholyn papur bob tro cyn eu defnyddio a rhwng unigolion.						
7.	Rhoddir padiau tafladwy budr mewn bag plastig unigol (sach cewyn) a rhoddir y bag mewn bag arall cyn ei waredu mewn bin cewynnau priodol. <i>Nodwch: os oes mwy na 7kg o wastraff, rhaid i'r lleoliad gael bin cewynnau/padiu ymataliaeth penodol.</i>						

8.	Rhoddir dillad budr mewn bag (bag dwbl) e.e. bag plastig) a roddir mewn ardal benodol draw oddi wrth y plant rhag croes-heintio a chaiff ei gasglu gan y riant/gofalwr. Mewn rhai amgylchiadau gwaredir eitemau dillad.						
9.	Mae gan ddisgyblion eu basged eu hunain o eli ayb wedi'u labelu'n glir ag enw'r plentyn						

## 7: Dŵr Yfed

	Arfer Da	Rhagorol	Da	Derbyniol	Blaenoriaeth ar gyfer gwella	Amherthnasol	Sylw ar y modd y cyflawnir hyn/ Cam Gweithredu
1.	Mae unigolyn wedi'i enwi'n gyfrifol am ddŵr yfed mewn lleoliad.						
2.	Mae tapiau mewn ardaloedd toiled wedi'u labelu fel dŵr na ddylid ei yfed.						
3.	<b>NID</b> yw cyflenwadau dŵr yfed o unrhyw fath wedi'u lleoli mewn ardaloedd toiled. <i>Nodwch: dylai lleoliadau sicrhau bod cyflenwad o ddŵr yfed iach ar gael, am ddim a bod hynny'n cael ei gyfathrebu er mwyn dangos yn glir lle mae'r dŵr.</i>						
4.	Cynghorir rhieni i ddarparu poteli dŵr y gellir eu haildefnyddio (h.y. nid poteli plastig a ddefnyddir unwaith).						
5.	Gyda photeli dŵr unigol a gedwir mewn lleoliad: <ul style="list-style-type: none"> <li>yn ddelfrydol, dylid eu golchi mewn peiriant golchi llestri neu eu golchi ar ddiwedd y dydd mewn dŵr poeth a glanedydd, eu rinsio a'u gadael i sychu ben i wared yn naturiol.</li> <li>Eu llenwi yn y bore â dŵr yfed o'r prif gyflenwad dŵr.</li> <li>Eu labelu ag enw'r dysgwyr.</li> </ul> NEU <ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'r disgyblion yn mynd â'u poteli eu hunain adref bob dydd.</li> <li>Rhoddir gwybodaeth i rieni sut i olchi poteli a pha mor aml.</li> </ul>						

6.	Yn ddelfrydol dylai peiriannau oeri dŵr gael eu plymio i'r cyflenwad dŵr yn hytrach na chyflenwad potel. Mae peiriannau oeri dŵr yn cael eu glanhau'n rheolaidd bob dydd ac mae contract cynnal yn ei le (yn cynnwys newid ffilter).						
7.	Mae peiriannau oeri dŵr yn cael eu draenio ar ôl i'r lleoliad fod ar gau am unrhyw gyfnod (tua 3L).						
8.	Mae ffynhonnau dŵr yn cael eu glanhau bob dydd ac mae pwysedd dŵr cywir ynddynt i sicrhau bod yn dŵr yn llifo'n ddigonol.						

### 8: Diogelwch bwyd (ar wahân i brydau ysgol)

	Arfer Da	Rhagorol	Da	Derbyniol	Blaenoriaeth ar gyfer gwella	Amherthnasol	Sylw ar y modd y cyflawnir hyn/ Cam Gweithredu
1.	Caiff arferion diogelwch bwyd eu harsylwi wrth baratoi unrhyw fwyd ac wrth ei weini yn y lleoliad e.e. brecwast, byrbryd, clwb ar ôl ysgol, clwb/gwersi coginio. Mae hyn yn cynnwys monitro tymheredd wrth weini'r bwyd a'i gofnodi.						
2.	Mae ardaloedd paratoi bwyd penodol a chypyrddau storio bwyd/oergelloedd ar gael.						
3.	Mae amserlen lanhau yn ei lle ar gyfer ardaloedd paratoi bwyd, gan ddefnyddio offer gyda chod lliw sy'n cael eu storio ar wahân i offer glanhau toiledau.						
4.	Mae staff yn gwisgo ffedogau ac yn gorchuddio eu gwallt/barf yn briodol wrth baratoi neu weini bwyd, gan olchi dwylo cyn ac ar ôl.						
5.	Mae staff sy'n paratoi neu'n gweini bwyd wedi cael hyfforddiant diogelwch bwyd lefel 2.						
6.	Sicrheir bod yr holl fwyd o fewn y dyddiad dod i ben/defnyddio erbyn a chaiff stoc ei gylchdroi'n briodol.						
7.	Cedwir bocsys cinio draw oddi wrth wres. Cynghorir rhieni/gofalwyr i ddarparu pecynnau iâ/bagiau oer wedi'u hinswleiddio.						

### 9: Anifeiliaid anwes, ymweliadau â fferm/sw a rheoli pla

	Arfer Da	Rhagorol	Da	Derbyniol	Blaenoriaeth ar gyfer gwella	Amherthnasol	Sylw ar y modd y cyflawnir hyn/ Cam Gweithredu
1.	Mae polisi ac asesiadau risg yn eu lle ar gyfer anifeiliaid a gedwir yn y lleoliad. Mae hyn yn cynnwys: cynnal iechyd anifeiliaid, lleihau'r risg o groes-heintio rhwng anifeiliaid a dysgwyr/staff, rheoli ymddygiad anifeiliaid, yswiriant ayb.						
2.	Mae unigolyn wedi'i enwi'n gyfrifol am anifeiliaid a gedwir yn y lleoliad.						
3.	Mae polisi ac asesiadau risg yn eu lle ar gyfer ymweliadau â ffermydd neu swâu.						
4.	Mae cytundeb rheoli pla digonol yn ei le.						

### 10: Rheoli gwastraff

	Arfer Da	Rhagorol	Da	Derbyniol	Blaenoriaeth ar gyfer gwella	Amherthnasol	Sylw ar y modd y cyflawnir hyn/ Cam Gweithredu
1.	Mae amserlen yn ei lle ar gyfer gwagio biniau ar ddiwedd y dydd.						
2.	Caiff ffedogau a menig tafladwy eu gwisgo wrth wagio neu lanhau biniau.						
3.	Caiff gwastraff ei storio mewn ardaloedd diogel nad oes gan ddisgyblion, anifeiliaid na'r cyhoedd fynediad iddynt.						



4.	<p>DIM OND i gynhwysydd nodwyddau wedi'i gymeradwyo y gwaredir nodwyddau, a chaiff ei gasglu pan fydd yn <math>\frac{3}{4}</math> llawn gan gwmni/gwasanaeth wedi'i gymeradwyo.</p> <p>Labelir y cynwysyddion hyn yn gywir a'u storio'n ddiogel draw oddi wrth y dysgwyr/cyhoedd.</p> <p>Mae staff allweddol wedi cael hyfforddiant ar reoli nodwyddau'n ddiogel ac mae gweithdrefn ysgrifenedig ar gyfer rheoli nodwyddau a chynhwysydd nodwyddau'n ddiogel ynghyd â delio ag anafiadau â nodwyddau.</p>						
----	---	--	--	--	--	--	--

### 11: Teithio / triplau tramor

	Arfer Da	Rhagorol	Da	Derbyniol	Blaenoriaeth ar gyfer gwella	Amherthnasol	Sylw ar y modd y cyflawnir hyn/ Cam Gweithredu
1.	<p>Caiff y broses o drefnu cwmni teithio a rhanddeiliaid ei asesu yn erbyn Safonau Diogelwch. Mae gan y cwmni dystiolaeth o ddefnyddio safonau diogelwch yn gywir.</p> <p>Nodwch. Mabwysiadwyd safonau Fforwm Teithio'r Ysgol fel meincnod ar gyfer bob cwmni sy'n gweithredu teithiau Astudio, Chwaraeon a Diwylliannol gan ddyfarniad Bathodyn Ansawdd y Cyngor gyfer Dysgu y tu allan i'r Ystafell Ddosbarth. Mae Safonau Prydeinig 8848 yn darparu fframwaith ar gyfer cwmnïau teithio i reoli risgiau'n briodol ar deithiau antur tramor.</p>						
2.	<p>Cyn y daith, dylai'r holl staff a'r disgyblion fynd i sesiwn i baratoi at y daith. Bydd yn cynnwys canllawiau llafar ac ysgrifenedig a gwybodaeth glir y bydd ei hangen arnynt: yn cynnwys agweddau iechyd a diogelwch, atal a rheoli haint, risg haint a sut i'w osgoi – h.y. hylendid sylfaenol, pwysigrwydd golchi dwylo .</p>						
3.	<p>Mae unigolyn wedi'i enwi'n gyfrifol am iechyd a diogelwch a gweinyddu cymorth cyntaf, ac mae wedi cael hyfforddiant</p>						

4.	Addysgir disgyblion am bwysigrwydd hylendid dwylo da a'r technegau cywir (yn cynnwys pryd, sut a pham i ddefnyddio geliau alcohol i olchi dwylo.)	Green	Yellow	Orange	Red		
5.	Rhaid cynnal asesiad risg ar gyfer bob gweithgaredd o bersbectif lechyd a Diogelwch ac Atal a Rheoli Haint cyn y gweithgaredd yn cynnwys, cyswllt ag anifeiliaid, nofio a chwaraeon dŵr.	Green	Yellow	Orange	Red		
6.	Wrth baratoi, prynu a bwyta neu yfed unrhyw fwy a diod, rhaid cynnal asesiad risg o bersbectif lechyd a Diogelwch ac Atal a Rheoli Haint cyn y gweithgaredd yn cynnwys: trin dŵr a chofnodion, yfed dŵr potel yn unig a'r amgylchedd yfed. Mae'r holl fwyd a baratoir gan ddisgyblion/staff/cwmni trefnu yn cadw at ganllawiau paratoi bwyd.	Green	Yellow	Orange	Red		
7.	Os bydd symptomau sy'n dangos bod salwch o natur heintus, ceisiwch gadw'r staff/disgyblion oddi wrth eraill a chael sylw meddygol.	Green	Yellow	Orange	Red		
8.	Cynghorir brechiadau teithio priodol a bod hynny'n cael ei gyfleu i'r holl rai sy'n mynd ar y daith.  Nodwch. Mae NaTHNaC ( <a href="https://travelhealthpro.org.uk/">https://travelhealthpro.org.uk/</a> ) a NHS Choices ( <a href="https://www.nhs.uk/conditions/travel-vaccinations/">https://www.nhs.uk/conditions/travel-vaccinations/</a> ) yn ffynonellau gwybodaeth dibynadwy.	Green	Yellow	Orange	Red		